**Yr amserlen ar gyfer ystyried Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)**

Ar 19 Hydref 2009, cyflwynwyd Mesur arfaethedig y Llywodraeth, 'Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)', yn y Cynulliad.

Ar 20 Hydref 2009, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio'r Mesur at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 er mwyn iddo ystyried a chyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae'r Pwyllgor Busnes wedi pennu amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac wedi cytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 18 Rhagfyr 2009.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**
**Hydref 2009**